# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 10FED TACHWEDD, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 3 Tachwedd 2016)

# PWYLLGOR PENSIYNAU

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Peredur Jenkins | W. Tudor Owen | Simon Glyn |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Trevor Edwards | John Pughe Roberts |

## Llafur (1)

Y Cynghorydd Glyn Thomas

## Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen W. Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Hywel Eifion Jones | Cyngor Môn |
| Margaret Lyon | Cyngor Bwrdeistref Conwy |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 15.09.16 fel rhai cywir .

**5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2016/17 - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** 6 - 11

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

**6. PRISIAD ACTIWARAIDD 2016 - DIWEDDARIAD AR Y BROSES** 12 - 13

Ystyried adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

**7. DIWEDDARIAD PWLIO BUDDSODDIADAU** 14 - 15

Ystyried adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

**8. DIWEDDARIAD AR YR YMARFERIAD CYSONI ISAFSWM PENSIWN GWARANTEDIG (IPG)** 16 - 18

Ystyried adroddiad y Rheolwr Pensiynau

**PWYLLGOR PENSIYNAU, 15.09.2016**

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Trevor Edwards, Peredur Jenkins, Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), W Tudor Owen (Cadeirydd) John P. Roberts a Glyn Thomas

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Seimon Glyn a H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn),

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9fed o Fehefin 2016 fel rhai cywir.

**5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2015 – 2016**

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn manylu ar sut fuddsoddwyd arian parod y Gronfa Bensiwn ar y cyd gydag arian y Cyngor yn 2015/16. Roedd yr adroddiad yn cyflawni gofynion Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

(b) Amlinellwyd mai diogelwch y buddsoddiad oedd prif amcan buddsoddi yr Awdurdod ac fe eglurwyd sut roedd yr arian wedi cael ei fuddsoddi er mwyn uchafu'r budd. Nodwyd bod cyfuno'r cronfeydd yn ceisio gwell dychweliadau.

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr adroddiad

**DERBYNIWYD ADRODDIAD Y RHEOLWR BUDDSODDI ER GWYBODAETH**

**6. FFIOEDD FIDELITY**

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn argymell y Pwyllgor i dderbyn cynnig gan Fidelity o raddfeydd ffioedd newydd er mwyn ceisio cwtogi costau. Gyda'r gronfa wedi sicrhau arbedion sylweddol o'r gostyngiad yn ffioedd Blackrock yn sgil pwlio buddsoddiadau ecwiti goddefol y cronfeydd Cymreig, roedd cyfle i adolygu ffioedd Fidelity. Nodwyd bod y risgiau wedi eu hystyried a bod cyngor wedi ei dderbyn gan Hymans (a oedd wedi ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor), yn

argymell symud i raddfa ffioedd newydd. Ategwyd mai pwlio cronfeydd oedd wedi arwain at y cynnig a oedd yn debygol o fod yn fanteisiol i'r Gronfa.

(b) Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhelliad

**PENDERFYNWYD DERBYN CYNNIG FIDELITY O RADDFEYDD FFIOEDD NEWYDD YN DDI-OED**

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben 1:20pm

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **10 TACHWEDD 2016** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2016/17 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Côd Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

## 1. CEFNDIR

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol bod cynghorau yn adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn). Mae'r adroddiad hon yn darparu diweddariad canol blwyddyn.

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2016/17 gan y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2016, a gellir ei weld ar y we yn https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=286&ver=4&

Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gweithgaredd y trysorlys a'r monitro risg a rheolaeth risg cysylltiedig.

## 2. Y CYD-DESTUN ALLANOL

Wrth cyrraedd 2016, roedd ansicrwydd sylweddol ynglŷn a'r twf byd-eang. Roedd arafu'r economi Tsiena a'r effaith dilynol gafwyd ar partneriaid masnachol a phrisiau nwyddau, ansicrwydd dros canlyniad etholiad llywydd yr Unol Daliaethau (heb adnabod plaid na ymgeisydd fel enillydd yn llwyr) a'r refferendwm i ddod ar berthynas y DU gyda'r UE, wedi creu nerfusrwydd a chychwyn sigledig ar y marchnadoedd.

Roedd anwadaliadau yn yr arolygon barn ar refferendwm yr UE yn creu anweddolrwydd sylweddol mewn cyfraddau cyfnewid, giltiau, bondiau corfforaethol ac ecwiti wrth i'r canlyniad fynd fwy ansicr. Yn syth cyn y canlyniad , roedd teimlad y farchnad yn newid yn arwyddocaol o blaid canlyniad Aros, newid a oedd yn cael ei gwrthdroi yn sydyn wrth i'r canlyniadau ddod i fewn. Roedd y bleidlais dros adael yr

UE yn danfon tonnau sioc drwy'r sbectrwm gwleidyddol domestig, Ewropeaidd a'r byd-eang, gyda'r Prif Weinidog David Cameron, yn ymddiswyddo yn sydyn iawn.

Rhwng 23 Mehefin a 1 Gorffennaf fe ddisgynnodd yr index Sterling 9% ac roedd anweddolrwydd sterling yn erbyn y doler yn cynyddu'n sylweddol. I gychwyn, ar draws y byd-eang, roedd marchnadoedd yn ymateb yn negyddol iawn gyda disgyniad mawr mewn prisiau ecwiti. Roedd dychweliadau bondiau y Llywodraeth yn disgyn yn siarp rhwng 20 – 30 bps ar draws pob aeddfedrwydd (h.y. roedd prisiau yn codi) gan fod buddsoddwyr yn chwilio am hafan diogel oddi wrth asedau gyda mwy o risg. Roedd meincnod dychweliad gilt 10 mlynedd yn disgyn o 1.37% i 0.86%.

Ond, wythnos ymlaen o'r canlyniad roedd ymateb y farchnad, er yn sylweddol, ddim mor ddrwg ag oedd rhai wedi disgwyl. Roedd CDS y UK (cost yswiriant yn erbyn diffygdalu sofren) wedi codi o 33.5 bps i 38.4 bps. Yn dilyn y canlyniad, disgynnodd mynegai'r FTSE All Share yn siarp o 7% (o 3,481 pwynt ar 23 Mehefin i 3.237), ond fe gododd i 3,515 erbyn diwedd y mis.

Roedd Banc Lloegr yn ceisio cysuro'r marchnadau a'r buddsoddwyr. Mewn ymateb i ganlyniad y refferendwm roedd areithiau Llywodraethwr Mark Carney ar 24 a 30 o Fehefin, yn pwysleisio bod y Banc yn barod i gefnogi hylifedd y farchnad arian a mynegodd y tebygrwydd o godiad mewn cyfraddau polisi 'yn yr haf'. Ym mis Awst lleihaodd y Banc cyfradd sylfaenol i 0.25% ond bydd effaith hyn yn cymryd amser i weithio trwy'r system.

## 3. GWEITHGARWCH BUDDSODDI

Mae'r Cyngor yn dal buddsoddiadau sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant, ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn.

Mae'r Arweiniad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor yw cyflawni enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

Mae'r trawsddodiad y cyfarwyddebau Undeb Ewropeaidd i ddeddfwriaeth y DU yn rhoi baich achub banciau'r UE sydd yn methu ar fuddsoddwyr llywodraeth leol ansicredig trwy'r 'bail-in' dichonol ar adneuon banc ansicredig.

Oherwydd y risg cynyddol a pharhad dychweliadau isel ar fuddsoddiadau banc ansicredig tymor byr, mae'r Cyngor yn anelu i amryfalu ymhellach i ddosbarthiadau asedau mwy diogel a/neu gyda dychweliad uwch yn ystod 2015/16. Yn y gorffennol buddsoddwyd mwyafrif arian dros ben y Cyngor mewn adneuon banc, tystysgrifau adneuon a chronfeydd marchnad arian ansicredig a thymor byr. Bydd arallgyfeirio i ernesau gyda chyfochrog a buddsoddiadau gyda sefydliadau nad ydynt yn destun 'bail-in' yn datblygu yn y dyfodol.

**Gweithgareddau Buddsoddi yn 2016/17**

| Buddsoddiadau | Balans ar 01/04/16 £'000 | Buddsoddiadau a wnaed £'000 | Buddsoddiadau a ad-dalwyd £'000 | Balans ar 31/08/16 £'000 | Cyfradd cyfartaledd % |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau ansicredig gyda sefydliadau ariannol wedi eu raddio A- neu uwch | | | | | |
| - cyfrifon alw | 3,300 | 41,635 | (41,510) | 3,425 | 0.44 |
| - adneuon a CDs | 49,000 | 42,500 | (44,000) | 47,500 | 0.44 |
| Buddsoddidau sicr gyda sefydliadau ariannol - Bondiau goryched | 2,184 | - | - | 2,184 | 1.75 |
| - Bondiau corfforaethol gan cwmni wedi eu raddio A- neu uwch | - | - | - | - | - |
| Buddsoddiadau mewn Cronfeydd wedi eu cyfuno | 9,100 | 101,435 | (95,135) | 15,400 | 0.52% |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **63,584** | **185,570** | **(180,645)** | **68,509** | |
| Cynnydd mewn Buddsoddiadau | | | | 4,925 | |

Diogelwch y cyfalaf sy'n parhau'n brif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi. Cynhaliwyd hyn drwy ddilyn polisi gwrthbartïon y Cyngor, sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2016/17.

Aseswyd ansawdd credyd y gwrthbartion a'i fonitro drwy gyfeirio at y statws credyd (isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartion a benwyd gan y Cyngor oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody's); prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol.

**Risg Credyd**

Crynhoir isod ansawdd credyd y gwrthbartïon fel y'u mesurwyd trwy sgôr credyd:

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd |
|---|---|---|---|---|
| **31/03/16** | 4.34 | AA- | 3.57 | AA- |
| **30/06/16** | 4.49 | AA- | 3.43 | AA |

Sgorio:
*- Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr ernes.*
*- Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr ernes.*
*-AAA = ansawdd credyd uchaf = 1*
*- D = ansawdd credyd isaf = 26*
*Y nod = A- neu statws credyd uwch, gyda sgôr o 7 neu'n is, i adlewyrchu'r dull buddsoddi presennol gyda'r prif ffocws ar ddiogelwch.*

Roedd buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnwys cyfrifon ar alw, adneuon cyfnod cyfradd sefydlog a thystysgrifau adneuon, cronfeydd marchnad wedi'u cyfuno, bondiau gorchuddiedig a bond corfforaethol.

**Diweddariad Gwrthbartïon**

O ganlyniad i'r refferendwm i aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd bu i'r dangosyddion amrywiol o risg credyd ymateb yn negyddol. Bu i credyd banc diffyg cyfnewid y DU weld cynnydd cymedrol ond gostyngodd prisiau cyfranddaliadau banc yn sylweddol, ar gyfartaledd o 20%, gyda banciau'r sy'n canolbwyntio ar y DU profi'r gostyngiadau mwyaf. Nid yw'r banciau tu allan i'r DU yn imiwn ond roedd y gostyngiad iddyn nhw yn llai amlwg.

Bu i Fitch israddio statws sofran y DU un hicyn o AA + i AA, a Standard & Poor yn israddio eu statws cyfatebol ddau rhiciau o AAA i AA. Mae gan Fitch, S & P a Moody rhagolwg negyddol ar y DU. Bu i S & P gymryd camau tebyg ar fondiau cwmni rheilffordd sydd wedi eu gwarantu gan Lywodraeth y DU.

Cadarnhaodd Moody y graddau o naw o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn y DU a diwygwyd y rhagolygon i negyddol ar gyfer y banciau a chymdeithas adeiladu hynny sy'n ei canfod yn agored i amgylchedd gweithredu mwy heriol yn dilyn canlyniad y refferendwm i adael yr UE.

Ni newidiodd Arlingclose eu cyngor i Gyngor Gwynedd ar fanciau a chymdeithasau adeiladu yn y DU yn syth o ganlyniad i ganlyniad y refferendwm. Maen't yn credu bod risg y bydd yr ansicrwydd dros rhagolygon masnachu y DU yn y dyfodol, yn dod a dirwasgiad nesaf y DU ymlaen yn gynt. Yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf bydd Arlingclose, felly, yn adolygu pob sefydliad yn y DU, ac mae'n debyg dros amser, yn cynghori byrhau cyfnodau ar y sefydliadau hynny yr ystyrir effeithir arnynt fwyaf.

Yn gynharach yn y flwyddyn is-raddiodd Moody statws tymor hir Deutsche Banc o BAA1 i BAA2 oedd yn adlewyrchu barn yr asiantaeth o'r risg gweithredu uwch ar weithredu cynllun strategol Banc Deutshe. Ym mis Mehefin is-raddiodd Moody y Ffindir o AAA i AA1 oherwydd ei farn y bydd twf economaidd y Ffindir yn parhau i fod yn wan dros y blynyddoedd nesaf, gan leihau gallu'r wlad i amsugno ergydion economaidd.

Uwchraddiodd Fitch statws tymor hir ING Banc o A i A + yn seiliedig ar eu barn fod fetrigau ariannol yn gadarn a sefydlog a'i disgwyliad y bydd y gwelliant mewn enillion yn cael eu cynnal. Bu i Fitch hefyd uwchraddio statws tymor hir Svenska Handelsbanken o AA- i AA sy'n adlewyrchu barn yr asiantaeth y bydd enillion y banc a phroffidioldeb yn parhau yn gryf, cael eu gyrru drwy greu incwm cadarn, effeithlonrwydd côst da a amhariad benthyciadau isel.

**Cyllidebu Incwm ac Alldro**

Roedd y balansau arian cyfartalog yn ystod y cyfnod yn £*m (* bydd y ffigwr ar gael ar ddiwrnod y Pwyllgor Archwilio). Cadwyd Cyfradd Banc y DU ar 0.5% ers mis Mawrth 2009 ond ar 4ydd Awst 2016 newidwyd y cyfradd i 0.25%. Bydd cyfradd is byth yn cael effaith ar y llog a enillir yn y dyfodol er bydd yr adneuoed sefydlog a delir ar hyn o bryd lleihau'r effaith yn y tymor byr.

Bydd effaith ar yr holl buddsoddiadau yn y dyfodol a byddem yn gweithio agos gyda ein ymgynghorwyr i ddefnyddio buddsoddiadau priodol er mwyn uchafu'r llog tra yn

dilyn y prif amcan sef gwarchod y swm y buddsoddir.
Amcangyfrifwyd byddai incwm buddsoddi'r Cyngor yng nghyllideb eleni yn £0.36m yn seiliedig ar alldro buddsoddi o £0.50m ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Disgwylir i'r Cyfradd Banc gael ei leihau eto tuag at sero yn y misoedd nesaf, a bydd hyn yn ei dro yn lleihau cyfraddau buddsoddiadau marchnad arian tymor byr gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Gan fod elfen o arian dros ben y Cyngor yn dal yn gael ei fuddsoddi mewn offerynnau marchnad arian, mae'n debyg y bydd disgyniad mewn incwm buddsoddi dros y flwyddyn.

**Diweddariad ar Fuddsoddiad Banciau Gwlad yr Iâ**

Bellach, mae'r Cyngor wedi adennill 98% o'i fuddsoddiad ym manc Heritable. Erbyn hyn £80,376 yw'r swm heb ei dalu. Mae'n debygol y bydd dosraniad pellach yn cael eu derbyn er nad yw'r gweinyddwyr wedi gwneud amcangyfrif swyddogol o'r adenillion terfynol eto.

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

**Risg Cyfraddau Llog:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cywngor i risg cyfraddau llog.  Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, fel a ganlyn:

| | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog | 100% | 100% | 100% |
| Gwir | 100% | | |
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol | 50% | 50% | 50% |
| Gwir | 0% | | |

**Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau.  Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £30m | £25m |
| Gwir | £2.18m | £2.18m | £2.18m |

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | Target | Actual |
|---|---|---|
| Sgor credyd cyfartal y portffolio | 6.0 | 3.43 |

## 7. Hyfforddiant Buddsoddi

Yn ystod y cyfnod, mynychodd swyddogion hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA oedd yn berthnasol i'w swyddi.

## 8. Rhagolygon ar gyfer Gweddill 2016/17

Yn dilyn y bleidlais dros adael yr Undeb Ewropaiadd, mae rhagolwg economaidd y DU wedi newid yn anfesuradwy. Bydd yn dibynnu yn bennaf ar natur y berthynas a'r negodi gyda'r UE, yn benodol yn y berthynas i fasnachu. Mae'r negodiadau yn dibynnu'n benodol ar wleidyddiaeth domestig ag oedd yn ansefydlog eu hunain.

Mae'r rhagolwg domestig yn ansicr, ond yn debyg i fod yn sylweddol wan ar ddiwedd y chwarter cyntaf, yn y tymor byr na ragwelwyd cynt. Mae Arlingclose wedi newid ei achos canolig ar gyfer llwybr y Cyfradd Banc dros y tair mlynedd nesaf. Mae Arlingclose yn credu y bydd gwneuthwyr polisi Banc Lloegr yn edrych ar unrhyw bwysau chwyddiant sy'n cael ei yrru gan arian cyfred.

| | Sep-15 | Dec-15 | Mar-16 | Jun-16 | Sep-16 | Dec-16 | Mar-17 | Jun-17 | Sep-17 | Dec-17 | Mar-18 | Jun-18 | Sep-18 | Average |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.32 |
| Arlingclose Central Case | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.25 | 1.50 | 1.50 | 1.75 | 1.75 | 1.08 |
| Downside risk | | | | -0.25 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.75 | -0.75 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -0.70 |

Mae Arlingclose yn credu bod y Llywodraeth a'r Banc Lloegr gyda'r offerynnau a'r parodrwydd i'w defnyddio, i osgoi unrhyw broblemau marchnad-eang sy'n arwain at fethdaliadau banciau. Mae'r dull gofalus at cyngor credyd yn golygu bod y banciau sydd ar restr gwrthbartion cyfredol y Cyngor gyda digon o byffer ecwiti i ddelio ag unrhyw broblemau lleol yn y tymor byr pe bai angen.

Eitem 6

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **10 TACHWEDD 2016** |
| **TEITL** | **PRISIAD ACTIWARAIDD 2016 – DIWEDDARIAD AR Y BROSES** |
| **PWRPAS** | **Hysbysu'r pwyllgor am y gwaith hyd yn hyn a'r canlyniadau drafft** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDIADAU** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae actwari'r Gronfa Bensiwn yn gweithio ar y prisiad actiwaraidd hyd at 31 Mawrth 2016 ar hyn o bryd. Mae'r broses wedi cyrraedd y pwynt lle mae Canlyniadau Prisiad Ffurfiol Cychwynnol 2016 wedi cael eu cynhyrchu ar lefel gronfa gyfan. Mae cyfradd cyfraniadau cyffredinol cyflogwyr wedi cael ei gyfrifo a bydd cyflogwyr yn derbyn eu cyfraddau unigol ar 10 Tachwedd.

## 2. CANLYNIADAU CYCHWYNNOL Y PRISIAD CYLLIDO FFURFIOL 2016

Mae'r lefel cyllido ar sail ariannu gytunedig wedi gwella o 85% yn 2013 i 91% yn 2016, h.y. mae'r diffyg ariannu wedi lleihau. Y prif reswm am y newid yn y lefel ariannu dros y cyfnod oedd dychweliadau buddsoddi yn well na rhagwelwyd. Mae'r rheiny wedi gosod yn erbyn gwerth yr ymrwymiadau oherwydd y newidiadau yn y tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd.

Mae'r tabl canlynol yn dangos canlyniadau ddrafft cychwynnol y gronfa gyfan o brisiad ffurfiol 2016 yn seiliedig ar ein sail gytunedig, gyda chanlyniadau prisiad ffurfiol 2013 wedi'i ddangos fel cymhariaeth.

| **Dyddiad Prisiad** | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2016** |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau Gwasanaeth y Gorffennol** | **£m** | **£m** |
| Gweithwyr | 699 | 762 |
| Pensiynwyr Gohiriedig | 185 | 251 |
| Pensiynwyr | 521 | 657 |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau** | **1,405** | **1,670** |
| **Asedau** | **1,195** | **1,525** |
| **Diffyg** | **(210)** | **(145)** |
| **Lefel Cyllido** | **85%** | **91%** |

Felly, bydd lefel cyfraniadau pensiwn cyflogwyr i ariannu ymrwymiadau gwasanaeth y gorffennol yn lleihau.  Fodd bynnag, bydd prisiad ymrwymiadau gwasanaeth y dyfodol, a lefel cyfraniadau pensiwn cyflogwyr bydd ei angen er mwyn ariannu'r ymrwymiadau hynny, yn cynyddu.

## 3. CYFRADD CYFRANIADAU

O fewn ffigurau lefel y gronfa bydd gwahaniaethau arwyddocaol ar gyfer cyflogwyr unigol, yn dibynnu ar broffil eu haelodau.  Mae gan bob cyflogwr ei gynllun cyllido teilwredig a bydd canlyniadau prisiad yn amrywio yn ddibynnol ar ei aelodaeth, cynllun cyllido a phrofiad ers y prisiad cynt (neu ers iddynt ymuno â'r Gronfa).  Gall cyflwr y farchnad rhoi gwasgedd i fyny ar gyfraddau cyflogwyr yn gyffredinol, ar gyfer gwasanaeth y dyfodol ac ar ad-dalu unrhyw ddiffyg.

## 4. CYFLOGWYR LLAI

Bydd aelodau yn cofio penderfynwyd cael gwared â'r ddau bwl cyflogwyr bach yn ystod proses prisiad 2013. Roedd y Gronfa wedi trefnu yswiriant ymddeoliadau oherwydd salwch er mwyn eu gwarchod nhw rhag costau uchel ar gyfer unrhyw ymddeoliadau o'r fath.  Mae'r newidiadau mewn cyfraniadau cyflogwyr unigol o'r gyfradd pwl yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod hirach a bydd hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth osod y cyfraniadau ar gyfer y cyrff hyn.

## 5. CAMAU NESAF

Y garreg filltir nesaf ym mhroses y prisiad yw darparu canlyniadau drafft y cyflogwyr unigol fydd ar gael ar gyfer fforwm y cyflogwyr sydd wedi'i drefnu ar fore 10 Tachwedd, cyn i'r pwyllgor yma cymryd lle yn y pnawn, ac mae croeso i aelodau mynychu.

## 6. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i aelodau cytuno'r broses a'r canlyniadau hyd yn hyn.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **10 TACHWEDD 2016** |
| **TEITL** | **PWLIO BUDDSODDIADAU** |
| **PWRPAS** | **Er mwyn hysbysu'r pwyllgor am y gwaith hyd yn hyn** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDIADAU** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hon yn darparu diweddariad i aelodau ar gydweithio Pwlio Buddsoddiadau yng Nghymru.

Mae Aelodau'n ymwybodol bod yr 8 gronfa CPLlL yng Nghymru wedi cyflwyno cynnig i Lywodraeth y DU er mwyn eu galluogi pwlio eu buddsoddiadau o £13bn. Yr amcan yw lleihau costau rheolaeth buddsoddi a gyda threfniadau llywodraethu ar y cyd anelu at rannu gwybodaeth ac ymarfer da a fydd yn cynorthwyo rheoli risgiau buddsoddi gyda'r nod i wella dychweliadau'r gronfa.

## 2. DATGANIAD I'R WASG

Bydd y prosiect yn rhyddhau datganiad i'r wasg yn y dyfodol agos gyda diweddariad ar gynnydd ar y cyd yn seiliedig ar yr wybodaeth ganlynol.

Mae'r cronfeydd CPLlL i mewn Cymru dymuno apwyntio Gweithredwr trydydd parti rheoledig gan y FCA i sefydlu a rhedeg cerbydau buddsoddi cyfunol (CIVs) er mwyn eu caniatáu pwlio eu hasedau cronfa bensiwn.

Y prif amcan tu ôl i'r fenter yw cyflawni arbedion ar gostau rheolaeth buddsoddiadau trwy darbodion maint a hefyd darparu mynediad i'r cronfeydd at gyfleoedd fuddsoddi dichonol ystod eang.

Bydd penderfyniadau dyraniad asedau (y symiau a buddsoddir mewn ecwiti, bondiau, eiddo a mathau asedau eraill) yn gwahaniaethu rhwng cronfeydd a bydd yn parhau cyfrifoldeb bob cronfa CPLlL unigol sydd yn cymryd rhan yn y pwll Cymraeg.

Bydd y CIV yn darparu amrediad o is-gronfeydd a bydd y blociau adeiladu er mwyn galluogi cronfeydd unigol i weithredu eu strategaeth buddsoddi. Bydd y Gweithredwr yn gyfrifol am gytundebu gyda'r rheolwyr buddsoddi - gofyn rheoleiddio yw hyn - a rhoi mewn lle'r cyfrif cadw, ceidwaid a threfniadau cynnal asedau ar gyfer y CIV(s).

Bydd y fanyleb ar gyfer y gwasanaethau gofynnol yn dewis gwybodus yn dilyn ymrwymiad gyda chyflenwyr dichonol sydd wedi datgan diddordeb yn dilyn y Rhybudd Gwybodaeth Gyhoeddus sydd yn rhagflaenydd i broses tendro.

Rhagwelir bydd y tender swyddogol yn cael ei dyrannu cyn diwedd 2016, gyda phenderfyniad terfynol ar y cyflenwr/ (wyr) dewisol erbyn gwanwyn 2017. Apwyntiad newydd bydd hon gan fydd y pwl buddsoddiadau CPLlL reoledig trefniant newydd ar gyfer y cronfeydd CPLlL Cymru.

Mae amcangyfrif gwerth asedau i'w gynnwys yn Bwl Cymru o gwmpas £13bn. Yn gychwynnol gellir rhai asedau hyn aros tu allan y cerbydau buddsoddi cyfunol newydd.

Yr amcam yw bydd y CIV CPLlL Cymru yn weithredol yn 2017, o flaen trefniant arfaethedig y llywodraeth i greu pwlïau buddsoddi y CPLlL erbyn Ebrill 2018.

Mae'r cronfeydd CPLlL yng Nghymru yn galonogol yn dilyn cymaint o ddiddordeb gan gyflenwyr dichonol mewn ymateb i'r Hysbyseb Gwybodaeth Gyhoeddus (PIN).

## 3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i aelodau nodi'r wybodaeth a darparwyd a'r cynnydd a gyflynwyd hyd yn hyn.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **10 Tachwedd 2016** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar yr ymarferiad cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig (IPG)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cymeradwyo lefel goddef cyn cysoni cofnodion, ac i ddiweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed gan y tîm.** |
| **AWDUR** | **Nicholas Hopkins – Rheolwr Pensiynau** |
| **ARGYMHELLION** | **I gymeradwyo lefel goddef o £2 yr wythnos cyn cywiro, ac i ariannu ymestyn cytundeb cyflogaeth yr Uwch Swyddog Pensiynau (IPG) a pharhad y tîm.** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn ei gyfarfod 10 Tachwedd 2015 cymeradwyodd y Pwyllgor hwn argymhelliad i sefydlu tîm mewnol i gysoni Isafswm Pensiynau Gwarantedig yn unol ag argymhellion CThEM.

1.2 'Roedd y tîm i'w sefydlu, a'i arwain gan y cyn Rheolwr Pensiynau, am gyfnod cychwynnol o 12 mis, ar sail dau ddiwrnod yr wythnos. Secondio aelod o staff parhaol a phrofiadol yr uned fel Arweinydd Tîm llawn amser, a recriwtio aelod dros dro allanol llawn amser hyd at 31 Mawrth 2018.

1.3 Yn unol â'r gofyn yn Nhachwedd 2015, dyma adroddiad cynnydd yn argymell yr anghenion adnoddau er mwyn symud ymlaen i ddarfod y dasg.

## 2. ARGYMELLIADAU'R TRYSORLYS

2.1 Mewn llythyr dyddiedig 2 Chwefror 2016 oddi wrth y Trysorlys i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol amlinellwyd canlyniadau gweithgor a sefydlwyd i benderfynu ar y cyd pa ddata i'w gysoni, a pha opsiynau sydd ar gael i Gynlluniau Pensiwn Sector Gyhoeddus (CPSC) er mwyn symleiddio'r ymarferiad. Yn gyffredinol y ddau brif bwynt a godwyd oedd:-

2.2 Pa ddata dylid cysoni:

- Aelodau cyfredol a gohiriedig gyda gwasanaeth rhwng 6/4/1978 a 5/4/1997;
- Rhai sydd ddim yn aelodau lle mae'r CPSC yn credu bod y ddyled eisoes wedi ei chlirio;
- Aelodau mae CThEM yn credu sydd yn parhau yn y cynllun, ond lle mae'r cynllun yn credu iddynt adael (e.e. wedi trosglwyddo allan); a
- Holl bensiynwyr gyda gwasanaeth rhwng 6/4/1978 a 5/4/1997.

2.3 Dewisiadau ar gyfer symleiddio'r broses:

- Bod dyddiadau contractio allan yn disgyn o fewn yr un flwyddyn dreth neu +/- un flwyddyn, 6 Ebrill to 5 Ebrill yn gynwysedig;
- Bod y swm IPG wythnosol a ddelir gan y CPSC a CThEM o fewn lefel goddef **£2 yr wythnos**.

2.4 Awgrymwyd nifer o faterion technegol bychan eraill yn ymwneud a'r gwaith. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn awgrymu dylid sicrhau cymeradwyaeth y Pwyllgor ar gyfer y lefel goddef £2 yr wythnos.

## 3. CYNNYDD YN Y GWAITH

3.1 Sefydlu'r tîm, cael gofod swyddfa, a chaffael offer TG oedd y tasgau cychwynnol.

3.2 Bu i'r ffeil wreiddiol a dderbyniwyd can CThEM gynnwys **16,130** o gofnodion aelodau gohiriedig a phensiynwyr i'w gwirio ar lefel luosol. Cynhyrchwyd y canlyniadau canlynol o'r allbwn gwreiddiol o'r system Altair, gan gofio bod rhai o'r cofnodion wedi cynhyrchu mwy nag un gwall:

| Allbwn y Cynllun | Cyfanswm |
|---|---|
| Gwallau Cysoni (yn cynnwys gwallau lluosol) | 20,344 |
| Cofnodion yn cydweddu 100% | 4,084 |
| Cofnodion amddifad y cynllun - | 4,423 |
| Cofnodion amddifad CThEM - | 2,669 |

3.3 Fel ar yr wythnos a ddarfu 7 Hydref 2016, anfonwyd wyth ffeil ymholiad i CThEM yn cynnwys 3,059 o ymholiadau o dan wahanol benawdau. Cadarnhaodd CThEM mewn galwad ffôn eu derbyn, ond eu bod yn cael hi'n anodd dod i ben a'r llwyr niferoedd o ymholiadau cenedlaethol a dderbyniwyd. Yn y cyfamser mae cofnodion aelodau gohiriedig a phensiynwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi eu diweddaru fel a ganlyn:

| Allbwn y Cynllun | Cyfanswm |
|---|---|
| Cofnodion yn cydweddu 100% | 10,417 |
| Ymholiadau wedi'u hanfon | 3,059 |
| Cofnodion i'w gwirio | 906 |
| Cofnodion wedi'u gwirio | 15,224 |

## 4. TRAFODAETHAU AG AWDURDODAU GWEINYDDU ERAILL YNG NGHYMRU

4.1 Mewn cyfarfod gyda Rheolwyr gweinyddu Cronfeydd Pensiwn Cymru Gyfan a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar y 3ydd o Hydref daeth yn amlwg fod Gwynedd yn dod ymlaen yn dda mewn cymhariaeth. Mae rhai cronfeydd yn ystyried allanoli'r gwaith, ar gost a amcangyfrifwyd yn £500k. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys cost y gwaith mewnol angenrheidiol, h.y. echdynnu ffeiliau, diweddaru cofnodion cyflogres ac Altair a.y.b.

4.2 Roedd hefyd yn amlwg bod gwaith ar y prisiant a datganiadau buddion blynyddol wedi cael effaith ar y gwaith cysoni, rhywbeth llwyddodd Gwynedd i'w osgoi drwy sefydlu tîm ar wahân.

## 5. STAFFIO

5.1 Yn seiliedig ar raddfeydd cyflog 2015/16, cytunodd y Pwyllgor (Tachwedd 2015) y costau a staffio canlynol. Roedd i gynnwys ailgyflogi Rheolwr Pensiynau ar y pryd, am gyfnod cychwynnol o 12 mis, secondio aelod profiadol o staff yr uned bensiynau, ac i recriwtio aelod o staff dros dro am y cyfnod. Seliwyd cost cyflogi'r tîm fel a ganlyn:

| **Teitl y Swydd / Graddfa** | **Cyfanswm blynyddol net (£)** | **Cyfanswm blynyddol gros (£)** |
|---|---|---|
| Uwch Swyddog Pensiynau (IPG)<br>Graddfa S3 (16 awr) | 11,729 | 12,219 |
| Arweinydd Tîm Cysoni IPG<br>Graddfa S2 Llawn Amser (secondio) | 24,472 | 31,392 |
| Cymhorthydd Cysoni IPG<br>Graddfa GS5 Llawn Amser (recriwtio) | 17,372 | 22,017 |
| **Cyfanswm Blynyddol:** | **53,573** | **65,628** |

5.2 Ar wahân i'r Uwch Swyddog Pensiynau (IPG), sefydlwyd y tîm ym mis Mehefin 2016. Felly, ni fyddwn yn gwario'r cyfan o'r arian eleni.

5.3 Er mwyn symud ymlaen gyda'r ymarferiad o Ionawr 2017 hyd at 31 Mawrth 2018, ac yn seiliedig ar raddfeydd cyflog 2016/17 a 2017/18, bydd angen ariannu'r gost canlynol:

| **Teitl y Swydd / Graddfa** | **Cyfanswm Ionawr 2017 - Mawrth 2018 net (£)** | **Cyfanswm Ionawr 2017 - Mawrth 2018 gros (£)** |
|---|---|---|
| Uwch Swyddog Pensiynau (IPG)<br>Graddfa S3 (16 awr) | 14,926 | 15,490 |
| Arweinydd Tîm Cysoni IPG<br>Graddfa S2 Llawn Amser (secondio) | 29,966 | 39,182 |
| Cymhorthydd Cysoni IPG<br>Graddfa GS5 Llawn Amser (recriwtio) | 21,192 | 27,300 |
| **Cyfanswm:** | **66,084** | **81,972** |

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Yn unol ag argymhelliad Trysorlys EM, gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo lefel goddefiant o £2 yr wythnos cyn cywiro.

6.2 Gofynnir i aelodau gymeradwyo parhau gyda'r prosiect i 31 Mawrth 2018 yn unol â'r costau staff uchod, fydd yn galluogi'r Pennaeth Cyllid i ymestyn cytundeb ôl-ymddeoliad hyblyg yr Uwch Swyddog Pensiynau (IPG) hyd at 31 Mawrth 2018.